# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH (ARBENNIG)** | **THE EXECUTIVE (EXTRAORDINARY)** |
| **DYDD IAU 2 HYDREF 2025 11.00 o'r gloch** | **THURSDAY 2 OCTOBER 2025 11.00 a.m.** |
| **SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |

| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Dyfed Wyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, *(sedd wag/vacant seat)*

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1** **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**

**2** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**3** **<u>MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG</u>**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**4** **<u>YMATEB I'R HYSBYSIAD GWELLA RHEOLAETH ADEILADU</u>** (Tudalennau 1 - 22)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**5** **<u>CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD</u>**

Ystyried mabwysiadu'r canlynol –

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae modd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna paragraff 16 o Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni. Yn benodol, gwybodaeth mewn perthynas â hawliad ar gyfer braint proffesiynol cyfreithiol y gellir ei gynnal mewn achosion cyfreithiol."

**6** **<u>HER GYFREITHIOL POSIBL I'R PENDERFYNIAD I ROI CANIATÂD CYNLLUNIO I FFERM SOLAR ALAW MÔN (DATBLYGIAD O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL)</u>** (Tudalennau 23 - 32)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith Arbennig |
| Dyddiad: | 2 Hydref 2025 |
| Pwnc: | Ymateb i'r Hysbysiad Gwella Rheolaeth Adeiladu |
| Aelod Portffolio: | Y Cynghorydd Nicola Roberts: Deilydd Portffolio - Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Christian Branch<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| Awdur yr Adroddiad: | Christian Branch<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| Aelodau Lleol: | Ddim yn berthnasol |

A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**Nodi a chymeradwyo ymateb y Cyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r Hysbysiad Gwella Rheolaeth Adeiladu**

**Eithrio'r penderfyniad hwn rhag galw i mewn ar yr amod bod Cadeirydd y Cyngor yn cytuno.**

**Cefndir**

Yn dilyn y tân yn Nhŵr Grenfell, cyflwynwyd rheolau diogelwch adeiladau diwygiedig newydd yng Nghymru.

Gweinidogion Cymru bellach yw'r Awdurdod Rheoleiddio ar gyfer Cymru (o dan Ddeddf Adeiladu 1984).

Ers mis Hydref 2024, mae'n rhaid i swyddogion rheolaeth adeiladu (gan gynnwys sefydliadau rheolaeth adeiladu yn y sector preifat) gofrestru gyda'r awdurdod rheoleiddio er mwyn cyflawni gwaith rheolaeth adeiladu yng Nghymru.

Mae'r awdurdod rheoleiddio yn gyfrifol am:

- Sefydlu a chynnal cofrestr o arolygwyr adeiladu (Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu)
- Darparu ar gyfer gwahanol ddosbarthiadau o Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu (Dosbarth 1 i Ddosbarth 4, yn ôl eu cymwysterau neu brofiad)
- Cofrestru arolygwyr adeiladu (yn amodol ar gwrdd â meini prawf penodol)
- Paratoi Cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu

Mae'r fframwaith cymhwysedd arolygwyr adeiladu yn darparu fframwaith eglur ar gyfer y proffesiwn rheolaeth adeiladu er mwyn arddangos eu cymhwysedd. Mae cymhwysedd yn adlewyrchu'r sgiliau, y wybodaeth, y profiad a'r ymddygiadau angenrheidiol sydd eu hangen ar unigolion er mwyn bod yn Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu.

**Honiad**

Ym mis Ebrill 2025, hysbyswyd y Cyngor gan Weinidogion Cymru fod ymchwiliad wedi'i ei ddechrau ar ôl iddynt dderbyn honiad fod Tîm Rheolaeth Adeiladu'r Cyngor yn torri

Rheolau Safonau Gweithredol (Cymru) 2024. Mae'r rheolau hyn yn nodi'r ymddygiad ac ymarfer proffesiynol a ddisgwylir gan Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu.

Roedd sylwedd yr honiad wedi'i godi gyda'r Cyngor ym mis Mawrth 2025 o dan y Polisi Chwythu'r Chwiban.

**Camau Cychwynnol a gymerwyd gan y Cyngor**

a. Cynhaliwyd ymchwiliad mewnol brys i sefydlu cywirdeb yr honiad.
b. Cychwynnwyd proses Adnoddau Dynol.
c. Penodwyd Arolygydd Cofrestredig Adeiladu Dosbarth 2F dros dro ddechrau Mai 2025 er mwyn sicrhau bod y Tîm yn cydymffurfio â'r Rheolau Safonau Gweithredol.
d. Sefydlwyd Grŵp Ymateb Rheolaeth Adeiladu (wedi'i gadeirio gan y Prif Weithredwr) er mwyn sicrhau fod mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith i ganiatáu i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â Deddf Adeiladu 1984. Roedd y Grŵp yn darparu cyfarwyddyd strategol, craffu, penderfyniadau ac atebolrwydd; yn ogystal â llywio'r ymateb i ymchwiliad Gweinidogion Cymru.
e. Ffurfiwyd Grŵp Gwella Gweithredol (wedi'i gadeirio gan y Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) i nodi gwelliannau a'u rhoi ar waith, er mwyn sicrhau fod y Tîm Rheolaeth Adeiladu yn cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol ac effeithlon.
f. Datblygwyd protocol (gyda chymorth cyfreithiol allanol) sydd yn amlinellu trefniadau'r Cyngor ar gyfer adolygu'r ceisiadau rheolaeth adeiladu a ystyriwyd gan y Tîm Rheolaeth Adeiladu ers mis Hydref 2024.
g. Cynhaliwyd adolygiad trylwyr o geisiadau o'r cyfnod perthnasol gan Arolygydd Cofrestredig Adeiladu cymwys a chymwysedig - ni nodwyd unrhyw faterion na phryderon mewn perthynas ag ansawdd unrhyw waith Rheolaeth Adeiladu a gyflawnwyd.
h. Recriwtiwyd staff asiantaeth allanol er mwyn cryfhau capasiti a gwydnwch y Tîm Rheolaeth Adeiladu.
i. Wedi ymrwymo i gytundeb gyda Chyngor Sir Powys (yn seiliedig ar Gytundeb Trawsffiniol Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol) i ymgymryd â gofynion fetio cynllun rheoli adeiladu y Cyngor (sicrhau bod targedau ac amserlenni statudol yn cael eu gwireddu)
j. Mae Hyfforddeion a Swyddog Cymorth Technegol y Tîm wedi'u cofrestru ar gyrsiau hyfforddi i sicrhau eu datblygiad proffesiynol parhaus

**Casgliad Ymchwiliad Gweinidogion Cymru**

Penderfynodd yr ymchwiliad bod y Cyngor wedi torri'r rheolau canlynol:

1. *Rhaid ichi neilltuo adnoddau ar gyfer eich swyddogaethau rheolaeth adeiladu mewn modd priodol a thargedu eich gweithgareddau mewn modd effeithiol drwy ystyried y risg sydd ynghlwm wrth dorri'r Ddeddf a'r Rheoliadau Adeiladu, a difrifoldeb posibl gwneud hynny. Rhaid i hyn gynnwys dyrannu personau cymwys i dasg benodol.*

2. *Rhaid ichi sicrhau bod personau sy'n cefnogi a/neu'n cyflawni eich swyddogaethau rheolaeth adeiladu yn gweithredu o fewn eu cymhwysedd ac unrhyw gofrestriadau perthnasol. Mae hyn yn gymwys i bob swyddogaeth rheolaeth adeiladu ac mae'n cynnwys gweithredu o fewn:*
    - *Fframwaith Cymhwysedd Arolygwyr Adeiladu (Cymru)*

- *y Cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu (Cymru) (adran 58F o Ddeddf Adeiladu 1984)*
- *y Rheolau Ymddygiad Proffesiynol ar gyfer Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu (Cymru) (adran 58R o Ddeddf Adeiladu 1984)*
- *unrhyw god ymddygiad a gaiff ei ddarparu gan yr awdurdod lleol ar gyfer personau y mae'r awdurdod lleol hwnnw yn eu defnyddio.*

3. *Rhaid ichi, cyn gynted ag y byddwch yn dod yn ymwybodol, atal unrhyw berson rhag gweithio ar unrhyw swyddogaeth rheolaeth adeiladu nad oes ganddo gymhwysedd, goruchwyliaeth, awdurdodiad na chofrestriad dilys a pherthnasol ar ei chyfer.*

Cyflwynwyd Hysbysiad Gwella i'r Cyngor o dan adran 58Z4 o Ddeddf Adeiladu 1984. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ymateb i Lywodraeth Cymru erbyn 14 Hydref, er mwyn dangos sut mae'n cydymffurfio â'r Hysbysiad.

Yn benodol, rhaid i'r Cyngor:

a. Roi ar waith y systemau a'r rheolaethau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau y byddwn yn nodi, rheoli a lliniaru'r risgiau o ran cyflawni ein swyddogaethau rheolaeth adeiladu yn gysylltiedig â lefelau staffio a phrotocolau goruchwylio.

b. Cofnodi yn ysgrifenedig y systemau a'r rheolaethau y penderfynwn eu bod yn angenrheidiol er mwyn nodi, rheoli a lliniaru'r risgiau o ran cyflawni ein swyddogaethau rheolaeth adeiladu yn gysylltiedig â lefelau staffio a phrotocolau goruchwylio.

c. Darparu copi o'r systemau a rheolaethau a benderfynwyd ac a gofnodwyd yn ysgrifenedig, gan gynnwys protocol goruchwylio ysgrifenedig sy'n cyd-fynd â'r Rheolau Safonau Gweithredol a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu (Cymru), gan gynnwys trefniadau uwchgyfeirio a chofnodion goruchwylio.

d. Darparu rhestr o'r holl Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu, ynghyd â dosbarth eu cofrestriad arolygydd adeiladu a statws goruchwylio.

e. Darparu cytundebau goruchwylio ffurfiol ar gyfer yr holl Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu nad ydynt wedi cael eu cofrestru mewn perthynas â'r dyletswyddau a ddyrannwyd iddynt.

f. Darparu cofnodion hyfforddi ar gyfer yr holl staff perthnasol mewn perthynas â'r protocol goruchwylio newydd.

g. Darparu'r cylch gorchwyl ac amserlen cyfarfodydd ar gyfer y grwpiau newydd a sefydlwyd, sef y Grŵp Ymateb Rheolaeth Adeiladu a'r Grŵp Gweithredol.

h. Darparu diweddariad chwarterol ynglŷn â chynnydd mewn perthynas â staffio a recriwtio.

i. Darparu cofnodion cyfarfodydd y Grŵp Ymateb Rheolaeth Adeiladu a'r Grŵp Gweithredol rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2025.

| |
|---|
| Bydd yr Hysbysiad Gwella mewn grym am 12 mis, o fis Gorffennaf 2025, neu hyd nes y caiff ei ddirymu gan Weinidogion Cymru, yn amodol ar gydymffurfio'n foddhaol â'r gofynion.<br><br>Er bod dadl ynghylch rhai elfennau o'r canfyddiadau, nid yw'r Cyngor wedi apelio yn erbyn yr Hysbysiad Gwella. Mae ymateb ffurfiol y Cyngor i'r Hysbysiad Gwella wedi'i gynnwys yn **Atodiad A**. Mae'r trefniadau llywodraethu a gweithredu o fewn y Tîm Rheolaeth Adeiladu'n cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a gofynion rheoleiddio. |

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

| |
|---|
| Fel nodwyd o'r blaen, er bod rhai elfennau o'r canfyddiadau yn cael eu dadlau, dewisodd y Cyngor beidio ag apelio yn erbyn dilysrwydd yr Hysbysiad Gwella o ystyried bod y camau gweithredu a'r amserlenni gofynnol yn cael eu hystyried yn rhesymol. |

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

| |
|---|
| Mae'r mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Gwaith, yn unol â pharagraff 3.5.1.6 o'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn dilyn trafodaeth â'r Swyddog Monitro, ac er mwyn rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru bod yr ymateb i'r Hysbysiad Gwella yn cael ei gymeradwyo ar lefel aelodau. |

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

| |
|---|
| Ydi, nid oes unrhyw newidiadau polisi yn cael eu hawgrymu. |

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

| |
|---|
| Mae gwariant ychwanegol wedi digwydd a fydd yn cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn mewn modd arferol. |

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?

| |
|---|
| Mae'n hanfodol fod gan yr Ynys Dîm Rheolaeth Adeiladu sy'n cydymffurfio â gofynion. |

2. A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar y Cyngor yn y dyfodol? Os felly, sut?

| |
|---|
| Ydi – dylai gofynion yr Hysbysiad Gwella (a'r camau a gymerir wedyn) leihau'r risg o unrhyw gostau neu hawliadau yn y dyfodol sy'n deillio o gwsmeriaid sy'n credu nad yw eu ceisiadau rheoli adeiladu wedi'u trin a'u penderfynu'n briodol. |

3. A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, gyda phwy?

Ddim yn berthnasol

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae’r penderfyniad yn effeithio’n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut.

Ddim yn berthnasol

5. Nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ddim yn berthnasol

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Ddim yn berthnasol

7. Nodwch unrhyw effaith y gallai’r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Ddim yn berthnasol

## E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori a beth oedd eu sylwadau?

<table>
<tr><td>1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)</td><td>Mae’r Prif Weithredwr yn cadeirio’r Grŵp Ymateb Rheolaeth Adeiladu ac mae o wedi goruchwylio ymateb y Cyngor i’r Hysbysiad Gwella</td></tr>
<tr><td>2. Swyddog Cyllid / 151</td><td rowspan="2">Mae’r Prif Weithredwr wedi adrodd i Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor ynghylch gofynion yr Hysbysiad Gwella ac ymateb y Cyngor.</td></tr>
<tr><td>3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)</td></tr>
<tr><td>4. AD</td><td></td></tr>
<tr><td>5. Eiddo</td><td></td></tr>
<tr><td>6. TG</td><td></td></tr>
<tr><td>7. Caffael</td><td></td></tr>
<tr><td>8. Sgriwtini</td><td></td></tr>
<tr><td>9. Aelodau Lleol</td><td></td></tr>
</table>

## F - Atodiadau

Atodiad A - Ymateb y Cyngor i’r Hysbysiad Gwella sy’n cynnwys:

a. Protocol Goruchwylio Rheoli Adeiladu
b. Cofnod Goruchwylio a Hyfforddiant Rheoli Adeiladu
c. Protocol Uwchgyfeirio a Datrys Rheoli Adeiladu

| |
|---|
| d. Cylch Gorchwyl Grŵp Ymateb Rheoli Adeiladu<br>e. Cylch Gorchwyl Grŵp Gweithredol Rheoli Adeiladu |

Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach)

| |
|---|
| Amherthnasol |

# Ymateb i Hysbysiad Gwella

# Rheoli Adeiladu

## Cyngor Sir Ynys Môn

DRAFT

**Hydref 2025**

**Atodiad A - Protocol Goruchwyliaeth Rheoli Adeiladu**

**Cyngor Sir Ynys Môn - Dosbarth 1: Swyddogion Rheoli Adeiladu dan Hyfforddiant**

## 1. Cefndir

Mae'r dosbarth hwn ar gyfer unigolion sy'n mynd i mewn i'r proffesiwn rheoli adeiladu nad ydynt eto yn gallu dangos y cymhwysedd sy'n ofynnol ar gyfer gweithio'n ddi-oruchwyliaeth. Mae'r hyfforddeion hyn yn cynnwys:

- Newydd-ddyfodiaid heb arbenigedd academaidd neu alwedigaethol blaenorol mewn rheoli adeiladu neu'r amgylchedd adeiledig.
- Y rhai sydd â chymwysterau academaidd neu alwedigaethol perthnasol ond heb brofiad rheoli adeiladu.
- Unigolion sydd â gwybodaeth adeiladu ond dealltwriaeth gyfyngedig o reoliadau, swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu cyfredol.

Bydd hyfforddeion yn dilyn llwybr hyfforddi neu ddilysu strwythuredig, a all gynnwys cymwysterau ffurfiol. Byddant yn gweithio o dan oruchwyliaeth briodol, gan symud ymlaen i'r dosbarth cofrestru nesaf ar ôl bodloni'r safonau angenrheidiol.

Bydd yn ofynnol i'r Arolygwyr Adeiladu (AA) dan hyfforddiant Dosbarth 1 ymrwymo i Gytundeb Goruchwyliaeth a fydd yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfyngiadau statudol a rheoleiddiol a pha weithgareddau y gallant ymgymryd â nhw o fewn eu dosbarthiad.

## 2. Agweddau allweddol ar fonitro FfCAA (Fframwaith Cymhwysedd Arolygwyr Adeiladu) ar gyfer hyfforddeion

a. **Ymarfer dan oruchwyliaeth:**
Rhaid i hyfforddeion weithio o dan oruchwyliaeth uniongyrchol Arolygydd Adeiladu sydd â chymwysterau addas ac sydd yn gofrestredig.

b. **Datblygu Portffolio:**
Maent yn adeiladu portffolio sy'n arddangos eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad mewn gwahanol feysydd rheoli adeiladu.

c. **Lefelau Cymhwysedd Graddol:**
Mae'r fframwaith yn amlinellu gwahanol lefelau cymhwysedd, y mae hyfforddeion yn symud fesul cam drwyddynt.

d. **Derbyn Hyfforddiant:**
Mae hyfforddeion yn cymryd rhan mewn hyfforddiant galwedigaethol i ddatblygu'r sgiliau penodol sydd eu hangen ar gyfer rheoli adeiladau.

e. **Gweithgareddau Cyfyngedig:**
Gall hyfforddeion ymgymryd â gweithgareddau penodol, cyfyngedig o fewn rheoli adeiladu o dan oruchwyliaeth fel rhan o'u hyfforddiant.

3. **Canolbwyntio ar sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiad:**

Craidd monitro FfCAA yw dangos gallu cynyddol hyfforddai yn y meysydd canlynol:

a. **Rôl yr Arolygydd Adeiladu (AA)**

**Goruchwylio a Gwneud Penderfyniadau:**
Mae'r AA yn darparu arweiniad a goruchwyliaeth, gyda'r holl benderfyniadau ar gydymffurfiaeth yn cael eu gwneud gan yr arolygydd cofrestredig.

**Cyfranogiad i fewnbwn arbenigol:**
Gellir tywys hyfforddeion i ddeall sut i gasglu gwybodaeth a chomisiynu mewnbwn arbenigol ar gyfer materion cymhleth, fel y nodir yn y fframwaith.

b. **Paratoi ar gyfer Cofrestriad**

**Tystiolaeth o gymhwysedd:**
Trwy'r profiad hwn dan oruchwyliaeth, mae hyfforddeion yn casglu'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos eu bod yn bodloni safonau FfCAA ar gyfer cofrestriad gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladu.

**Cwrdd â Safonau'r Diwydiant:**
Nod y FfCAA yw creu safon glir ar gyfer y proffesiwn rheoli adeiladu cyfan, gan sicrhau lefel gyson o gymhwysedd ymhlith yr holl weithwyr proffesiynol, gan gynnwys newydd-ddyfodiaid a hyfforddeion.

4. **Diagram o fframwaith cymhwysedd arolygwyr adeiladu**




*Mae'r diagram hwn yn darparu crynodeb o'r datganiad cymhwysedd cyffredinol a'r dulliau dangosol ar gyfer arddangos cymhwysedd ym mhob un o'r naw maes pwnc o'r model FfCAA, fel yr amlinellir yn adran 3*

## 5. Canllawiau wedi'u cymryd o'r Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Arolygwyr Adeiladu (FfCAA)

**a. Y Gyfraith**

Cynnal safonau proffesiynol uchel wrth gymhwyso'r gyfraith tra’n cyflawni'r holl swyddogaethau a gweithgareddau sy’n ymwneud â rheoli adeiladu

**b. Technoleg**

Arddangos lefelau uchel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut mae'r amgylchedd adeiledig wedi datblygu dros amser, y trawsnewidiad o ddylunio traddodiadol i ddylunio arloesol a'r rôl y mae deunyddiau, cydrannau a systemau yn ei chwarae wrth sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym ar adeg y gwaith adeiladu ac yn ystod unrhyw waith dilynol.

Arddangos lefelau uchel o arbenigedd a sgiliau proffesiynol sy'n ymwneud ag adeiladu'r amgylchedd adeiledig a chyflawni'r holl swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladau. Mae cymhwysedd mewn technoleg yn cynnwys technoleg adeiladu (adeiladau sydd eisoes yn bodoli a rhai newydd), systemau adeiladu, dulliau adeiladu modern a chynaliadwyedd.

**c. Gwasanaethau Adeiladu**

Cynnal safonau proffesiynol uchel wrth ystyried a derbyn gwasanaethau adeiladu gan arddangos cydymffurfiaeth â'r rheoliadau priodol (pob swyddogaeth a gweithgaredd rheoli adeiladu). Diffinnir gwasanaethau adeiladu fel y darpariaethau sy'n sicrhau bod adeilad yn gweithio ac yn addas i'w ddefnyddio, gan gynnwys gwresogi, goleuo, awyru, draenio, systemau canfod tân, larymau, ac ati fel y nodir yn y wybodaeth fanwl am y pwnc.

Ymwybyddiaeth o rôl gwasanaethau a'u hintegreiddiad i'r amgylchedd adeiledig, eu dyluniad, eu gosodiad, eu harolygiad, eu comisiynu, eu cynnal a’u chadw, eu hardystio, eu defnyddio a'u hystyried yn y prosesau asesu cynlluniau ac arolygu.

**d. Swyddogaethau a Gweithgareddau**

Cynnal safonau proffesiynol uchel wrth gyflawni'r holl swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu

**e. Asesu Cynlluniau a Gorfodaeth**

Cynnal safonau proffesiynol uchel wrth asesu cynlluniau, asesu a blaenoriaethu risg sy'n arwain at benderfyniadau ynghylch cydymffurfiaeth.

Rôl asesu cynlluniau, y prosesau a'r gweithdrefnau dan sylw gan gynnwys ymgynghoriadau o adeg eu cyflwyno, dilysu hyd at benderfyniad ar gydymffurfiaeth neu wrthod (a chyhoeddi tystysgrifau cynlluniau os yw'n briodol).

Cydnabod y ffaith bod rheoleiddio ac asesu cydymffurfiaeth yn dechrau pan gyflwynir cais ac yn parhau i'r cam asesu cynlluniau.

f. **Arolygu a Gorfodaeth**
Cynnal safonau proffesiynol uchel yn ystod prosesau arolygu ac ysgogi camau gorfodaeth, fel y bo'n briodol, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu, prosesau a gweithdrefnau arolygu a'r trosglwyddiad o dderbyn cais am waith adeiladu a'r adolygiad cysylltiedig o gynlluniau, i'r gwaith gwneuthur ffisegol ac adeiladu ar y safle.

Gorfodaeth a'r modd y mae gorfodaeth yn cael ei chymhwyso o fewn y prosesau rheoleiddio adeiladu o ran sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu mewn perthynas ag adeiladau newydd, estyniadau, newidiadau, addasiadau, adnewyddiadau, ac unioni, trwy'r prosesau arolygu.

g. **Sgiliau Rheoli a Sgiliau Craidd**
Cynnal safonau proffesiynol uchel o fewn y tîm rheoli adeiladu trwy gymhwyso sgiliau rheoli a sgiliau craidd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth briodol sy'n berthnasol i reoli adeiladau.

h. **Rheoli Diogelwch**
Cynnal safonau proffesiynol uchel sy'n gysylltiedig â'ch diogelwch eich hun ac eraill yn ystod y prosesau adeiladu a datblygu a gynhelir ar y safle ac yn y swyddfa.

Gallu aelodau'r tîm rheoli adeiladu i gymhwyso eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cymwyseddau wrth hyrwyddo a rheoli diogelwch, tra'n bodloni eu gofynion mewn perthynas â'r swyddogaeth rheoli adeiladu, ac i roi gwybod am unrhyw faterion sy'n amlwg yn peri pryder i'r awdurdod gorfodi priodol.

i. **Moeseg**
Cynnal safonau proffesiynol a moesegol uchel wrth ymgymryd â'r holl weithgareddau rheoli adeiladu.

## 6. Goruchwylio Swyddogion Rheoli Adeiladu dan Hyfforddiant Dosbarth 1

Bydd yr Arolygydd Adeiladu Cofrestredig (AAC) (Dosbarth 2A-F) yn gweithredu fel goruchwyliwr i'r Arolygwyr Adeiladu dan Hyfforddiant drwy gydol eu rhaglen hyfforddi, Diploma CIOB Lefel 4 mewn Rheoli Adeiladu Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Cyngor Sir hefyd mewn trafodaethau gyda'r LABC ac Awdurdodau Lleol eraill Gogledd a Chanolbarth Cymru i ddarparu gallu goruchwylio ychwanegol pe na bai Mr James A Burgess ar gael (e.e. oherwydd gwyliau blynyddol).

Bydd yr AAC yn asesu'r gwaith a wnaed gan y ddau unigolyn a bydd yn atebol am eu gwaith. Bydd gan Adran Rheoli Adeiladu Cyngor Sir Ynys Môn system ar waith i sicrhau bod yr holl waith dan oruchwyliaeth yn cyrraedd y safon. Rhaid cofnodi'r gwaith dan oruchwyliaeth mewn ffeiliau prosiect, a bydd yr holl dystiolaeth o'r gwaith a wnaed yn cael ei chadw mewn portffolio a bydd yn cael ei monitro a'i chofnodi'n rheolaidd mewn Cofnodion Goruchwylio.

Ni fydd yr hyfforddeion yn ymgymryd â rôl rheoli technegol, nac yn goruchwylio gwaith eraill, nes bod ganddynt y cymhwysedd angenrheidiol i wneud hynny.

## 7. Gweithio o dan oruchwyliaeth: arolygwyr adeiladu dan hyfforddiant Dosbarth 1

Bydd yr arolygwyr adeiladu dan hyfforddiant yn cael eu goruchwylio ar gyfer y gwaith y maent yn ei wneud. Mae'r gwaith y byddant yn cael eu goruchwylio yn ei gylch, fel arolygwyr adeiladu dan hyfforddiant Dosbarth 1, yn cynnwys:

- Gwirio cynlluniau ar gyfer cydymffurfiaeth â rheoliadau adeiladu lle mae'r cynlluniau'n cael eu hail-wirio gan AAC dosbarth 2-4 sydd â'r cymhwysedd priodol
- Archwilio gwaith adeiladu ochr yn ochr ag AAC dosbarth 2-4 sydd â'r cymhwysedd addas. Bydd hyn yn cynnwys trafod canfyddiadau gyda nhw, a goruchwyliaeth o'ch penderfyniadau
- Casglu gwybodaeth i'w dangos i AAC dosbarth 2-4 sydd â'r cymhwysedd addas ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cydymffurfiaeth

**Tîm Rheoli Adeiladu**
**Awst 2025 (F1)**

DRAFT

**Atodiad B - Cofnod Goruchwylio a Hyfforddiant Rheoli Adeiladu**

**Dosbarth 1: Swyddog Rheoli Adeiladu dan Hyfforddiant**

**Llwybr academaidd neu alwedigaethol a ddewiswyd ar gyfer yr unigolyn -** Diploma CIOB Lefel 4 mewn Rheoli Adeiladau Gwasanaeth Cyhoeddus

| |
|---|
| **Enw'r Hyfforddai**:<br><br>**Goruchwylydd**: |
| **Dyddiad:** |
| **Amser:** |
| **Rhif y Prosiect:** |
| **Cyfeiriad Safle:** |
| Disgrifiad o'r Prosiect: Amlinellwch y prosiect yn fyr, fel estyniad, adeilad newydd, addasiad, neu ddymchwel |
| |
| Pwrpas yr ymweliad |
| |
| Gwaith a gafodd ei arsylwi: Disgrifiwch y mathau o arolygiadau a gynhaliwyd a'r gwaith a gafodd ei arsylwi (e.e. Sylfeini, draenio, gwaith cyn-plastro) a'r hyn a gafodd ei arsylwi |
| |
| Camau a gymerwyd / Gwiriadau a Gyflawnwyd |
| |

| |
|---|
| Cyfeiriadau a Deddfwriaeth Rheoleiddio Adeiladu: Manylu ar y prosesau a'r gweithdrefnau a ddefnyddiwyd i sicrhau cydymffurfiaeth |
| |
| Materion / Arsylwadau<br><br>(Technegau adeiladu – Dulliau modern, systemau arloesol, carbon isel, effeithlonrwydd ynni, technolegau clyfar) |
| |
| Gwersi a Ddysgwyd:<br><br>Sylwch sut y cyfrannodd y gweithgaredd at eich datblygiad cyffredinol fel arolygydd adeiladu a thuag at gofrestriad |
| |
| Camau Nesaf / Cyngor ar y safle |
| |

| **Crynodeb o'r Dysgu** |
| --- |
| Gweithgareddau allweddol yr ymgymerwyd â nhw |
| |
| Cymwyseddau a ddatblygwyd:<br><br>• Deall deddfwriaeth adeiladu.<br>• Datrys problemau.<br>• Sgiliau a rhyngweithiadau personol.<br>• Sgiliau TG a Chadw Cofnodion<br>• Gwaith tîm a mentergarwch<br>• Cydymffurfiaeth â'r côd ymddygiad<br>• Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| |
| Sylwadau’r hyfforddai |
| |
| Sylwadau'r goruchwylydd |
| |
| Llofnod (Hyfforddai) |
| |
| Llofnod (Goruchwylydd) |
| |

| **Gweithdrefnau gwirio cynlluniau** |
| --- |
| Gwiriadau Cynlluniau a Manylebau: Nodwch unrhyw waith a wnaed ar wirio cynlluniau a manylebau yn erbyn rheoliadau |
| |
| Ymgysylltiad â Chleientiaid/Rhanddeiliaid: Cofnodwch fanylion cyfarfodydd ac ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda phenseiri, adeiladwyr, peirianwyr a'r gwasanaeth tân |
| |
| Datblygiad Cymhwysedd: Nodwch sut y cyfrannodd y gweithgaredd at eich datblygiad cyffredinol fel arolygydd adeiladu a thuag at gofrestriad |
| |
| Cofnodwch pryd roeddech chi'n gweithio ochr yn ochr ag arolygydd adeiladu cofrestredig (AAC) ac unrhyw benderfyniadau a oruchwyliwyd |
| |
| Nodwch y gweithwyr proffesiynol allweddol sy'n rhan o'r prosiect a'ch cyfraniadau i'r broses ymgynghori |
| |

**Tîm Rheoli Adeiladu**
**Awst 2025 (F1)**

## Atodiad C: Protocol Uwchgyfeirio a Datrys Rheoli Adeiladu

### 1. Cyflwyniad:

Mae'r Protocol Uwchgyfeirio a Datrys hwn wedi'i gynhyrchu ar gyfer staff, gyda'r bwriad o grynhoi ac egluro'r broses ar gyfer uwchgyfeirio materion o fewn y Swyddogaeth Rheoli Adeiladu. Nid yw'r protocol hwn yn holl-gynhwysol a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Rheolau Safonau Gweithredol a'r Côd Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig.

Gellir defnyddio'r Protocol Uwchgyfeirio a Datrys ar gyfer unrhyw fater, gan gynnwys staffio, goruchwyliaeth neu ymholiadau technegol sy'n ymwneud â Rheoliadau Adeiladu.

Mae'r protocol hwn yn amlinellu dull 5 cam o uwchgyfeirio unrhyw faterion a allai fod gan Swyddog, ac ni ddylai pob cam o'r broses gymryd mwy na 7-10 diwrnod gwaith. Anogir swyddogion i ddilyn y camau fel yr amlinellir yn y Protocol hwn a pheidio â hepgor camau. Os yw Uwch Swyddogion yn amau bod cam yn y broses uwchgyfeirio wedi'i hepgor, efallai y bydd y mater yn cael ei ddad-uwchgyfeirio a gallai hynny arwain at oedi pellach.

DRAFT

### 2. Y Protocol:

#### Cam 1: Datrysiad ar lefel Swyddogion

Fel cam cyntaf, anogir Swyddogion i drafod y mater gyda Swyddogion eraill y Tîm Rheoli Adeiladu, neu'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ehangach. Dylech fod yn glir ynglŷn â:

- Beth yw'r broblem neu beth y byddwch chi efallai'n anghytuno yn ei gylch (byddwch yn benodol).
- Y risg a'r effaith bosibl i chi fel Swyddogion neu'r Tîm Rheoli Adeiladu.
- Yr hyn rydych chi'n gobeithio ei gyflawni gyda'r penderfyniad.

#### Cam 2: Rheolwr Llinell

Os na allwch ddatrys y mater trwy drafodaethau gydag aelodau eraill o staff, rhaid i chi wedyn godi'r mater gyda'ch Rheolwr Llinell. Gellir gwneud hyn trwy unrhyw ddull cyfathrebu rhesymol (e.e. e-bost, MS Teams, galwad ffôn, wyneb yn wyneb ac ati) ond dylech bob amser sicrhau eich bod yn dilyn hyn i fyny yn ysgrifenedig.

Os na fedr eich Rheolwr llinell ddatrys y mater, byddant yn hysbysu'r Swyddog yn ysgrifenedig bod y mater yn cael ei gyfeirio i'r Prif Swyddog Cynllunio.

#### Cam 3: Prif Swyddog Cynllunio

Gall y Prif Swyddog Cynllunio ofyn am ragor o wybodaeth neu dystiolaeth neu bydd yn gofyn am gyfarfod â'r Swyddog a'r Rheolwr Llinell i gael dealltwriaeth bellach o’r

mater. Os na all y Prif Swyddog Cynllunio ddatrys y mater, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at y Pennaeth Gwasanaeth. Bydd y Prif Swyddog Cynllunio yn hysbysu'r Rheolwr Llinell yn ysgrifenedig bod y mater wedi'i gyfeirio i'r Pennaeth Gwasanaeth.

**Cam 4: Pennaeth Gwasanaeth**

Fel y'i diffinnir yng Nghyfansoddiad y Cyngor, mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am yr holl swyddogaethau sy'n ymwneud â Rheoli Adeiladu fel y'u cynhwysir yn y Deddfau perthnasol. Felly, mae'n debygol y bydd unrhyw fater yn cael ei ddatrys ar y cam hwn ac na fydd angen ei uwchgyfeirio ymhellach. Fodd bynnag, os yw'r Pennaeth Gwasanaeth yn credu bod angen uwchgyfeirio’r mater ymhellwch, rhoddir gwybod i'r Grŵp Ymateb Rheoli Adeiladu yn unol â Chylch Gorchwyl y Grŵp.

Gall Swyddog ofyn i'r mater gael ei gyfeirio i'r Grŵp Ymateb Rheoli Adeiladu ac mewn amgylchiadau o'r fath, dylid gwneud y cais hwnnw i'r Pennaeth Gwasanaeth ar y cam hwn.

**Cam 5: Grŵp Ymateb Rheoli Adeiladu**

Sefydlwyd y Grŵp Ymateb Rheoli Adeiladu i sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith i alluogi'r Cyngor i ymgymryd â'i ddyletswyddau statudol mewn perthynas â Deddf Adeiladu 1984. Gellir cyfeirio unrhyw fater sy'n ymwneud â Rheoli Adeiladu i'r Grŵp hwn i'w ddatrys.

Os yw'r Grŵp Ymateb Rheoli Adeiladu o'r farn bod angen eglurder pellach ar y mater, gellir cyfeirio'r mater at y Corff Rheoleiddio perthnasol (e.e. yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, LABC, BSCF ac ati)

DRAFT

**3. Chwythu'r chwiban:**

Os yw Swyddog yn teimlo bod ganddynt bryderon difrifol am y Cyngor ac nad ydynt yn teimlo eu bod yn gallu dilyn y camau uchod, gallant ystyried codi'r mater o dan bolisi chwythu'r chwiban.

O dan yr amgylchiadau hyn, dylai Swyddogion ddilyn polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor Sir fel y manylir yn y Côd Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Adeiladu Cofrestredig.

**Tîm Rheoli Adeiladu**
**Medi 2025 (F1)**

**Atodiad D: Cylch Gorchwyl y Grŵp Ymateb Rheoli Adeiladu**

**1. Cyd-destun**

Mae'r Cyngor yn gynyddol bryderus am allu, cymhwysedd, capasiti a chydymffurfiaeth ei Dîm Rheoli Adeiladu. Mae'r pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf â'i ddyletswyddau statudol sy'n deillio o Ddeddf Adeiladu 1984, yn ogystal â deddfwriaeth, safonau a chodau ymddygiad perthnasol eraill.

Mae angen ymateb brys i nodi a gweithredu ar unwaith ar welliannau angenrheidiol i sicrhau bod y Tîm yn ymgymryd â'i ddyletswyddau mewn modd cydymffurfiol, effeithiol, effeithlon a gwydn.

Disgwylir i'r gwelliannau hyn ystyried canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Archwilio Cymru ar ddiogelwch adeiladu yng Nghymru: 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru

**2. Pwrpas y Grŵp**

a. Sicrhau ymateb priodol ac amserol ar draws y Cyngor i'r sefyllfa.
b. Darparu cyfarwyddyd a chraffu strategol (yn enwedig i'r Grŵp Gweithredol), yn ogystal â gwneud penderfyniadau clir a sicrhau atebolrwydd.
c. Sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith i alluogi'r Cyngor i ymgymryd â'i ddyletswyddau statudol mewn perthynas â Deddf Adeiladu 1984.
d. Goruchwylio datblygiad a gweithrediad cynllun gweithredu i wella capasiti, gallu, cymhwysedd a goruchwyliaeth Tîm Rheoli Adeiladu'r Cyngor (mewn perthynas â Deddf Adeiladu 1984).
e. Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd i lywio ymateb y Cyngor i ymchwiliad Gweinidog Cymru i honiadau bod y Cyngor wedi torri'r Rheolau Safonau Gweithredol (RhSG) yn rhinwedd ei swyddogaeth fel rheolaeth adeiladu'r Awdurdod Lleol (ac unrhyw Hysbysiad Gwella dilynol).
f. Gweithredu prosesau rheoli risg cadarn i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi, eu cofnodi, eu hasesu, eu lliniaru a'u gwerthuso.
g. Sicrhau cydymffurfiaeth â safonau a gweithdrefnau rheoleiddio, yn ogystal â pholisïau a phrosesau'r Cyngor.
h. Sicrhau trefniadau cyfathrebu effeithiol gyda'r Grŵp Gwella Gweithredol, rhanddeiliaid (gan gynnwys Gweinidogion Cymru fel yr awdurdod rheoleiddio) a staff y Cyngor.
i. Cadw cofnod o benderfyniadau a chamau a gymerwyd i ddangos atebolrwydd.

**3. Trefniadau Llywodraethu**

Bydd y Grŵp yn adrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth, trwy'r Prif Weithredwr / Dirprwy Brif Weithredwr.

Bydd y Prif Weithredwr hefyd yn diweddaru Pwyllgor Gwaith y Cyngor.

DRAFT

**4. Aelodaeth (Gwasanaeth i enwebu cynrychiolwyr addas)**

- Prif Weithredwr
- Dirprwy Brif Weithredwr
- Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
- Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid

Rhagwelir y bydd Cyfarwyddwr Swyddogaeth Busnes y Cyngor a'r Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 yn ymgysylltu â nhw fel a phan fo angen.

**5. Cydlynu**

Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu gan y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd. Bydd y cofnodwr yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth.

Bydd log gweithredu yn cael ei gynnal a bydd yn cael ei ddosbarthu'n brydlon ymhlith y Grŵp.

DRAFT

**Atodiad E: Cylch Gorchwyl y Grŵp Gweithredol Rheoli Adeiladu**

**1. Cyd-destun**

Mae angen ymateb gweithredol brys i nodi a gweithredu gwelliannau angenrheidiol i sicrhau bod y Tîm Rheoli Adeiladu yn ymgymryd â'i ddyletswyddau mewn modd cydymffurfiol, effeithiol, effeithlon a gwydn. Mae'r dyletswyddau hyn yn ymwneud yn bennaf â Deddf Adeiladu 1984, yn ogystal â deddfwriaeth, safonau a chodau ymddygiad perthnasol eraill.

Rhaid i'r holl weithgareddau a gwelliannau gyd-fynd â Rheolau Safonau Gweithredol Llywodraeth Cymru (Cymru) | LLYW. CYMRU

Hefyd, disgwylir y bydd yr holl welliannau yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Archwilio Cymru ar ddiogelwch adeiladu yng Nghymru: 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru

**2. Pwrpas y Grŵp**

DRAFT

a. Cymryd camau ynghylch, a gweithredu ar gyfarwyddiadau a chanllawiau a dderbyniwyd gan Grŵp Ymateb Rheoli Adeiladu’r Cyngor
b. Goruchwylio'r adolygiad o geisiadau rheoli adeiladu hanesyddol (yn unol â phrotocol mewnol y cytunwyd arno).
c. Sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith i alluogi'r Cyngor i ymgymryd â'i ddyletswyddau statudol mewn perthynas â Deddf Adeiladu 1984.
d. Uwchgyfeirio materion gweithredol ac adrodd ar gynnydd i'r Grŵp Ymateb Rheoli Adeiladu.
e. Arwain ar baratoi a gweithredu Cynllun Gweithredu i wella capasiti, gallu a gwytnwch y Tîm Rheoli Adeiladu (mewn perthynas â Deddf Adeiladu 1984).
f. Cydlynu pob mater mewn perthynas â staffio, recriwtio, goruchwylio, hyfforddiant, datblygu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus parhaus y Tîm (gyda chefnogaeth gan AD)
g. Gweithredu prosesau rheoli risg cadarn i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi, eu cofnodi, eu hasesu, eu lliniaru a'u gwerthuso.
h. Sicrhau cydymffurfiaeth â safonau a gweithdrefnau rheoleiddio, yn ogystal â pholisïau a phrosesau'r Cyngor.
i. Sicrhau trefniadau cyfathrebu effeithiol rhwng y Grŵp Ymateb Rheoli Adeiladu, staff o fewn y Swyddogaeth Gynllunio (yn enwedig y Tîm Rheoli Adeiladu).
j. Cadw cofnod o benderfyniadau a chamau a gymerwyd i arddangos cyfrifoldeb.
k. Sicrhau bod lles staff yn cael ei fonitro'n agos ac uwchgyfeirio unrhyw bryderon.

## 3. Trefniadau Llywodraethu

Bydd y Grŵp yn adrodd i'r Grŵp Ymateb Rheoli Adeiladu, trwy'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Bydd y Grŵp Gweithredol Rheoli Adeiladu yn cyfarfod yn wythnosol am 3 mis neu hyd nes y cytunir fel arall.

## 4. Aelodaeth

- Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
- Prif Swyddog Cynllunio
- Rheolwr Datblygu Cynllunio
- Arolygydd Rheoli Adeiladu (ac eraill yn ôl yr angen)

## 5. Cydlynu

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cydlynu a'u trefnu gan y Rheolwr Datblygu Cynllunio ar ran y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r Prif Swyddog Cynllunio.

Bydd y Grŵp yn cael ei gadeirio gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd neu'r Prif Swyddog Cynllunio yn ôl yr angen.

Bydd log gweithredoedd yn cael ei gadw a bydd yn cael ei ddosbarthu'n brydlon ymhlith y Grŵp.

Bydd y log gweithredoedd yn cael ei rannu gyda'r Grŵp Ymateb Rheoli Adeiladu.

Os yw problem ddifrifol neu argyfyngus wedi'i nodi, bydd hyn yn cael ei gyfeirio ar unwaith i'r Grŵp Ymateb Rheoli Adeiladu.

DRAFT

Document is Restricted

This page is intentionally left blank